

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod 23 Tachwedd 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog

Y Cyng. Brian Jones: Aelod

Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward:

Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau

Amgylcheddol

Awduron yr Adroddiad: Chris Brown / Joanne Taylor

Teitl Tendr Cerbydau Fflyd Newydd Ar Gyfer Y Model Gwastraff
Newydd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chynnig i ymgymryd â phroses dendro i nodi prif gontractwr i ddarparu cerbydau fflyd newydd i gefnogi Model Gwastraff CSDd ar gyfer casglu gwastraff aelwydydd, masnach a chymunol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad i roi cymeradwyaeth i'r ymarfer tendro arfaethedig i nodi prif gontractwr i ddarparu cerbydau fflyd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo i gynnal y broses dendro arfaethedig.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) a'r Ffurflen Comisiynu Cerbydau Fflyd (Atodiad 2), a'r Llinell Amser (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.3. Bod y penderfyniad hwn yn cael ei weithredu ar unwaith, oherwydd yr angen i ddechrau'r Gwahoddiad i Dendro ar ddechrau mis Rhagfyr 2021 i sicrhau bod y nwyddau'n cael eu derbyn mewn pryd ar gyfer lansio'r model gwasanaeth

newydd. Mae hyn oherwydd bod yr amser aros am gerbydau yn hir ar hyn ar hyn o bryd.

- 3.4. SYLWCH: Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr 2022 i gael cymeradwyaeth i Ddyfarnu'r Contract ar ôl y broses dendro, a fydd hefyd yn cadarnhau trefniadau rheoli'r contract, costau'r tendr a manylion y contract.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae manylion ynglŷn â'r amserlen amlinellol ar gyfer y broses dendro arfaethedig i'w cael isod. O ystyried gwerth y gwaith posib, mae amserlenni Cyfnodolyn Swyddogol Yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) yn berthnasol. Wrth sefydlu a chynnal proses dendro bydd y swyddogion yn gweithio gyda (ac yn cael cyngor gan) Y Gyfraith a Chaffael. Bydd y tendr yn cael ei gyflwyno trwy Gwerthwchi Gymru drwy ddefnyddio'r system Proactis. Mae cerrig milltir allweddol a'u dyddiadau targed ar gyfer yr ymarfer tendro hwn i'w gweld yn Atodiad 3.
- 4.2. Amcangyfrifir y bydd y contract ar gyfer fflyd o gerbydau disel yn werth £2.554m a fyddai o fewn y gyllideb bresennol a ddyrannwyd ar gyfer y contract; fodd bynnag sylwch nad yw nifer gwirioneddol y cerbydau wedi'u cadarnhau ac felly fe allai'r ffigwr hwn newid. Y cynnydd uchaf a ragwelir yw oddeutu dau gerbyd a gallai effaith hynny olygu gorfod ailasesu'r gyllideb, neu ostwng nifer y cerbydau 'sbâr', er nad yw hyn yn opsiwn a ffefrir oherwydd bod angen y rhain i sicrhau parhad busnes.
- 4.3. Ystyrir prynu cerbydau trydan hyd at 20%. Gallai hynny gostio hyd at 50% yn fwy na disel, a byddai angen i ni sicrhau cyllid oddi wrth ffynonellau eraill i fod yn hyfyw. Mae trafodaethau wedi dechrau gyda Llywodraeth Cymru, i wneud cais am gyllid atodol i dalu gwahaniaeth y gost cyfan rhwng cerbydau disel a thrydan. Os na ellir sicrhau cyllid gan LIC, byddai angen i ni nodi ffynonellau cyllid amgen neu ailasesu ein cymhareb cerbydau trydan a ffefrir.
- 4.4. Bydd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Ionawr 2022 yn nodi beth yw costau'r tendr a manylion y contract.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Er heb ei grybwyll yn uniongyrchol o fewn y Cynllun Corfforaethol presennol, mae'r newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer casglu gwastraff o aelwydydd yn cael effaith bositif ar Flaenoriaeth Gorfforaethol, "Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i Ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd". Bydd yn cynyddu nifer ac ansawdd y system ailgylchu a gesglir o aelwydydd, ac yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu dolen gaeedig. Bydd hefyd yn arwain o bosib at ehangu busnesau lleol, gan arwain at gyfleoedd cyflogaeth a thwf economaidd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Unig gost y broses dendro arfaethedig fydd amser y swyddog a fydd yn gwneud y gwaith. Fel y nodwyd eisoes, bydd angen derbyn cymeradwyaethau pellach gan y Cabinet ar gyfer y penderfyniad o Ddyfarnu Contract i'r contractwr llwyddiannus ar ddiwedd y broses dendro.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Yn syml mae'r Adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno Gwahoddiad i Dendro, gweler Atodiad 1 am wybodaeth bellach ar yr Asesiad o'r Effaith ar Les sy'n cael ei gyflawni ar gyfer yr holl Ailfodelu Gwasanaeth Gwastraff lle mae'r datblygiad ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn elfen allweddol i gefnogi'r model ar gyfer gwasanaethau newydd arfaethedig. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn bositif.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Ymgynghorwyd gyda, a diweddarwyd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd a'r Aelod Arweiniol Cyllid ynghylch eu safle ar y **Bwrdd Prosiect**.

Mae'r Bwrdd Prosiect wedi'i gadeirio gan Bennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol sy'n gweithredu fel Swyddog Gweithredol Prosiectau ac yn cyfarfod tua unwaith y mis, ac ym mhob Bwrdd Prosiect mae'n diweddarau ar y Risg ac mae'r safle bresennol o ran Costau yn cael eu cyflwyno i'w hadolygu a'u gweithredu fel bo'r angen.

- 8.2. Cafodd yr egwyddor gyffredinol o newid i fodel cyflenwi gwastraff newydd a gefnogir gan fflyd o gerbydau newydd ei gymeradwyo'n wreiddiol gan y **GBS a'r Cabinet** ym mis Rhagfyr 2018 a chyflwynwyd diweddariadau dilynol am gynnydd yng nghyfarfod **Craffu Cymunedau** ym mis Hydref 2019 a mis Mai 2021 a **Chyfarfod Briffio'r Cabinet** ym mis Mawrth 2021.
- 8.3. Gweler Atodiad 2 (Ffurflen Gomisiynu) a gadarnhawyd ym mis Ionawr 2020. Mae newidiadau i raglen gyflenwi'r newid gwasanaeth yn gyffredinol wedi golygu mai dim ond nawr y mae angen cyflwyno'r tendr. Mae'r llwybr caffael arfaethedig yn aros yr un fath.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Mae'r broses dendro a fydd yn helpu i gyflenwi'r gwaith o ddatblygu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd i gefnogi'r newid yn y gwasanaeth casglu gwastraff cyffredinol wedi cael ei gymeradwyo mewn egwyddor.
- 9.2. Mae'r dyfarniad contract ei hun yn destun adroddiad pellach.
- 9.3. Mae'n bwysig bod y gost yn cael ei chynnal o fewn dyraniadau'r gyllideb bresennol ar gyfer y prosiect a bod ystyriaeth yn cael ei roi i effaith defnyddio cyllid allanol i helpu i bontio'r bwlch ar gyfer yr opsiwn trydan drutach. Byddai angen rhoi cynllun ar waith i sicrhau bod cyllideb ar gael i newid y cerbydau hynny ar yr amser priodol yn y dyfodol. Ar sail hynny mae'r adroddiad yn cael ei gefnogi.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Risg na dderbynnir unrhyw ymateb i'r tendr. Byddai hyn yn cael effaith fawr, ond mae'r tebygolrwydd yn isel gan ein bod yn defnyddio fframwaith presennol. Fodd bynnag nid ydym yn disgwyl llawer o ymateb.
- 10.2. Risg na fydd LIC yn ariannu'r bwloch rhwng prisiau cerbydau disel a cherbydau trydan. Byddai'r effaith yn Ganolig. Os bydd hyn yn digwydd, mesur lliniaru fyddai cytuno ar sefyllfa wrth gefn o ran p'un a ellir dod o hyd i gyllid amgen ynteu a ddylid caffael cerbydau disel yn unig.
- 10.3. Risg na fydd unrhyw un o'r cynigion yn bodloni ein gofynion yn llawn. Byddai'r effaith yn Ganolig. Mesur lliniaru fyddai cael contractau gyda mwy nag un cyflenwr (byddai hynny'n golygu gwaith ychwanegol a monitro / cyfarfodydd ychwanegol).
- 10.4. Mae'r pwysau parhaus sy'n newid yn gyflym yn y farchnad ar brisiau a chyflenwadau materol yn cynyddu'r risg o dendrau sy'n uwch na'r costau dangosol presennol. Byddai'r effaith yn Uchel. Rydym wedi adolygu costau diweddaraf fflyd o gerbydau gyda chyflenwyr. Rydym hefyd wedi hysbysu partïon perthnasol bod risg y bydd dendrau yn uwch na'r costau dangosol presennol.
- 10.5. Risg na fydd cyflenwyr yn gallu darparu'r cerbydau o fewn yr amserlen ofynnol. Mae'r Farchnad Gerbydau dan straen ar hyn o bryd ac mae prinder byd-eang o ficrosglodion (lled-ddargludwyr). Mae'n bosibl y bydd pwysau allanol eraill yn effeithio ar gyflenwyr hefyd. Byddai'r effaith yn Uchel. Gan hynny rydym yn anelu at roi'r tendr allan cyn gynted ag sy'n bosibl i ganiatáu ar gyfer amseroedd arwain hir – felly yr adroddiad hwn. Rydym hefyd yn anelu at ddyfarnu'r contract cyn gynted ag sy'n bosibl.

9 Pŵer i wneud y penderfyniad

- 9.1 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Rhan II
- 9.2 a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

9.3 a120 Deddf Llywodraeth Leol 1972